# Polisi a Gweithdrefn Gwyno i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

**Tabl Rheoli'r Ddogfen**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen :** | **Polisi a Gweithdrefn Gwyno i Ddysgwyr APS** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):** | Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, APS |
| **Rhif y Fersiwn:** | 4 |
| **Statws y Ddogfen:** | Cymeradwywyd |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 10 Gorffennaf 2025 |
| **Cymeradwywyd Gan:** | Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant |
| **Dyddiad Dod i Rym:** | Ar unwaith |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Mehefin 2028 |
| **Dogfennau Cysylltiedig:** | Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant |

**Hanes y Ddogfen:**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Nodiadau ar y Diwygiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | 09 Gorffennaf 2019 | Kathryn Delderfield | |
| 2 | 04 Chwefror 2021 | Kathryn Delderfield | • Diweddaru dogfennau cysylltiedig<br>• Eglurhad o'r cwynion sy'n cael eu cwmpasu gan y polisi hwn<br>• Gwahanu a diwygio gwybodaeth am gyfrinachedd<br>• Gwybodaeth ychwanegol yn adran 7<br>• Ehangu'r wybodaeth am apelio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.<br>• Diweddaru'r wybodaeth am Ddyfarniadau Cyffredin ynghylch cwynion ac apeliadau |
| 3 | 18 Mehefin 2022 | Kathryn Delderfield | |
| 3.1 | 21 Awst 2023 | Gareth Longden | • Newid enw'r ddogfen i Bolisi a Gweithdrefn Gwyno i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant i adlewyrchu'r ffaith y gellir cyflwyno cwynion am ddarpariaeth academaidd o dan y polisi hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | May 2025 | Kathryn Delderfield | Ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn marciau o dan y polisi Apeliadau Academaidd.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r polisi wedi'i ailysgrifennu i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd yn sgil cwynion diweddar, yn arbennig er mwyn hwyluso datrysiad cynnar. |

# Polisi a Gweithdrefn Gwyno i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)

## 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys

2. Cyflwyniad a Chwmpas y Polisi

3. Egwyddorion Sylfaenol

4. Cyfrinachedd

5. Datrysiad Cynnar

6. Cwyn Ffurfiol

7. Cwynion Dienw

8. Cwynion Grŵp

9. Y Weithdrefn Gwyno

9.1 Gwerthuso'r Gŵyn

9.2 Ymchwilio i'r Gŵyn

9.2.1 Y Swyddog Achos

9.2.2 Y Weithdrefn ar gyfer Cyfarfodydd

9.2.3 Gwneud Dyfarniad ynghylch y Gŵyn

10. Canlyniadau

11. Y Weithdrefn Adolygu

12. Oedi

13. Apeliadau i Brifysgolion Dilysu

14. Apeliadau i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch

Atodiad 1. Ffurflen ar gyfer Cwynion Ffurfiol

Atodiad 2. Siart llif y Weithdrefn ar gyfer Cwynion Ffurfiol

## 2. Cyflwyniad a Chwmpas y Polisi

Er ein bod yn anelu at ddarparu gwasanaeth rhagorol a meithrin cymuned gefnogol, gynhwysol, rydym yn sylweddoli y gallai materion godi o bryd i'w gilydd. Gallai'r rhain fod yn faterion rhwng dysgwyr, dysgwyr a staff neu faterion sy'n ymwneud â darpariaeth, prosesau a threfniadau gweinyddol Athrofa Padarn Sant (ymdrinnir â phroblemau rhwng y staff o dan bolisi Cwynion Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru). Mae'n bwysig bod problemau'n cael eu datrys cyn gynted â phosibl ac mor deg â phosibl. Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r polisi a'r gweithdrefnau arferol ar gyfer delio â materion sy'n cael eu codi gan ddysgwyr. Noder nad yw'n cynnwys materion sy'n cael eu cwmpasu gan y Polisi Apeliadau Academaidd[1]. Mae'r Polisi Apeliadau Academaidd yn mynd i'r afael â chwynion am ddyfarnu marciau ar gyfer gwaith wedi'i asesu. Weithiau, yn dibynnu ar natur y gŵyn, gallai fod yn fwy priodol delio â'r mater o dan bolisi arall, er enghraifft cwyn am fater diogelu, neu fathau penodol o gwynion yn erbyn staff.

Dim ond materion sydd wedi effeithio'n uniongyrchol arnoch chi y mae'r polisi hwn yn eu cwmpasu. Hefyd, dim ond cwynion ynghylch materion sydd wedi digwydd o fewn terfynau cyfrifoldebau Athrofa Padarn Sant y mae'n eu cwmpasu.

Ni ellir defnyddio'r broses gwyno gan un ymgeisydd i'r weinidogaeth i wneud sylwadau ar addasrwydd unigolyn arall i gael ei ordeinio, dim ond ar gyfer delio â rhywbeth sydd wedi effeithio arnoch chi'n uniongyrchol y gellir ei defnyddio.

## 3. Egwyddorion Sylfaenol

a. Ein nod yw sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn deg, gan ddangos urddas a pharch tuag at bawb dan sylw.

b. Os byddwch yn gwneud cwyn, ni fyddwch o dan anfantais oherwydd hynny, ac eithrio os canfyddir bod y gŵyn yn wamal, yn flinderus neu'n faleisus. Ni fydd gwneud cwyn yn cael effaith niweidiol ar eich marciau, y ffordd y cewch

[1] Mae'r Polisi Apeliadau Academiadd yn ymdrin â chwynion am farciau a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith a aseswyd.

eich trin neu, yn achos y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig, ni fydd y weithred o wneud cwyn yn cael effaith andwyol o ran penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'u trwyddedu.

c. Ein nod yw sicrhau bod y prosesau yn agored, yn cael eu cynnal yn amserol gan unigolion annibynnol priodol.

d. Disgwyliwn i bawb sy'n gysylltiedig â'r gŵyn gydweithio er mwyn gallu ymchwilio'n briodol iddi.

e. Deallwn y gall mynd drwy'r broses gwyno achosi straen i bawb dan sylw ac felly byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses, p'un ai chi yw'r person sy'n gwneud y gŵyn, p'un a oes cwyn wedi'i gwneud yn eich erbyn neu p'un a ydych yn ymchwilio i'r gŵyn.

f. Os byddwch yn gwneud cwyn y mae Athrofa Padarn Sant o'r farn ei bod yn wamal, yn flinderus neu'n faleisus, efallai y byddwn yn dirwyn y gŵyn i ben. Pan ganfyddir bod cwyn wedi'i gwneud yn wamal, yn flinderus neu'n faleisus, gallai hyn fod yn sail ar gyfer camau disgyblu.

## 4. Cyfrinachedd

Bydd Athrofa Padarn Sant yn cyflawni ei rhwymedigaethau yn llawn o dan reoliadau diogelu data perthnasol a Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhannu am y gŵyn.

Bydd pawb sy'n ymwneud â'r gŵyn yn cael eu hatgoffa o'r cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn sy'n cael ei hamlinellu isod. Bydd gwybodaeth sy'n gysylltiedig yn cael ei datgelu ar sail yr angen i wybod.

Pan fydd perygl o niwed, neu os honnir bod trosedd wedi'i chyflawni, gall fod angen cyfeirio'r wybodaeth i'r tîm diogelu a/neu'r heddlu, neu gorff perthnasol arall.

I gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu'r wybodaeth a roddwch i ni, darllenwch ein datganiad preifatrwydd yma.

## 5. Datrysiad Cynnar

Os oes gennych bryder neu broblem, dylech ystyried i ddechrau a yw'n bosibl codi hyn drwy brosesau adborth arferol Athrofa Padarn Sant neu, os ydych yn dilyn rhaglen academaidd neu Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig, drwy eich cynrychiolydd myfyrwyr. Mae Athrofa Padarn Sant yn cymryd adborth gan ddysgwyr o ddifrif, a gellir datrys llawer o faterion sy'n ymwneud â chynnwys modiwlau, asesiadau a'r ddarpariaeth gwasanaeth drwy'r llwybr hwn.

Os ydych yn teimlo na roddwyd sylw priodol i'ch pryder drwy'r prosesau adborth neu os yw'n ymwneud â rhywbeth nad yw'n cael ei gwmpasu gan y prosesau adborth, er enghraifft problem yn ymwneud â dysgwr arall, yna mae proses datrysiad cynnar Athrofa Padarn Sant yn ceisio datrys materion yn gyflym gan achosi cyn lleied â phosibl o straen. Gallwch siarad ag un o'r aelodau o staff canlynol a fydd yn hwyluso datrysiad anffurfiol:

- Uwch Gydlynydd
- Cyfarwyddwr Ffurfiant
- Rheolwr Gwasanaethau Dysgu

Byddant yn gwrando arnoch chi ac mewn sgwrs gyda chi byddant yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddelio â'ch problem. Gallai hyn gynnwys:

- Hwyluso sgwrs
- Darparu gwybodaeth neu esboniadau a allai ddatrys y pryder
- Os bydd y mater yn un syml, efallai y gallent gymryd camau i'w ddatrys
- Trefnu darpariaeth gyfryngu
- Ymddiheuriad

Os nad yw'n bosibl datrys y mater drwy'r broses datrysiad cynnar, neu os yw'n rhy gymhleth, yna gellir gwneud cwyn ffurfiol.

Bydd yr aelod o staff sy'n hwyluso'r datrysiad cynnar yn cadw cofnod ac yn ei rannu gyda chi.

## 6. Cwyn Ffurfiol

Os na ellir datrys cwyn drwy'r broses datrysiad cynnar, gallwch ei chodi'n ffurfiol gan gyflwyno'r ffurflen cwyno ar-lein **yma**. Os dymunwch, gallwch ofyn i aelod o staff sydd wedi helpu gyda'r cam datrysiad cynnar i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen. Os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth, yna rhaid cwblhau'r ffurflen yn Atodiad 1 a'i chyflwyno i Gadeirydd Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant yn **ChiefExec@cinw.org.uk** .

Os na chodwyd cwyn ffurfiol drwy'r broses Datrysiad Cynnar ac y byddai hynny wedi bod yn briodol, gellir cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r lefel honno.

Dylid cyflwyno cwyn ffurfiol o fewn mis i ddiwedd y broses datrysiad cynnar ac fel arfer heb fod yn fwy na chwe mis ar ôl i'r prif faterion y mae'r gŵyn yn cyfeirio atynt ddigwydd. Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn ymdrin â chwynion a dderbynnir ar ôl yr amser hwn oni fydd tystiolaeth bod rhesymau da pam na chyflwynwyd y gŵyn yn gynharach.

Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich cwyn, er enghraifft negeseuon e-bost neu fanylion tystion.

## 7. Cwynion dienw

Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn ymdrin â chwynion dienw fel arfer o dan y polisi Cwyno i Ddysgwyr oherwydd gallai hyn greu annhegwch yn y broses, yn arbennig os gwneir honiadau yn erbyn unigolyn arall.

Mae yna amgylchiadau eithriadol pan na fydd enw'r person sy'n gwneud y gŵyn yn cael ei rannu gyda'r person y gwneir y gŵyn yn ei erbyn. Os hoffech wneud cwyn ar y sail hon, yna dylech esbonio hyn yn glir ar y ffurflen. Fodd bynnag, gallai hyn ei gwneud yn fwy anodd i ymchwilio'n drylwyr i'r gŵyn.

## 8. Cwynion gan Grŵp

Pan fydd yr un materion wedi effeithio ar nifer o ddysgwyr, mae'n bosibl gwneud cwyn gan grŵp o dan yr amodau canlynol:

a. Rhaid i'r grŵp enwebu llefarydd i gynrychioli'r grŵp. Bydd angen i bob aelod o'r grŵp gydsynio i benodi'r llefarydd hwn yn ysgrifenedig, a rhaid i'r llefarydd gytuno hefyd.

b. Mae'n rhaid i bob aelod o'r grŵp fod wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y materion sy'n cael eu codi yn y gŵyn.

c. Mae aelodau'r grŵp yn cytuno gyda'i gilydd a ydynt yn derbyn canlyniad y gŵyn ai peidio.

d. Mae'r llefarydd yn cyflwyno tystiolaeth ar ran aelodau'r grŵp.

e. Gwneir unrhyw gais i adolygu canlyniad y gŵyn drwy'r llefarydd, yn seiliedig ar benderfyniad cyfunol y grŵp.

## 9. Y Weithdrefn Gwyno

### 9.1 Gwerthuso'r Gŵyn

Rhaid i chi gyflwyno eich cwyn gan ddefnyddio'r ffurflen gwyno ffurfiol.

Bydd y Pennaeth (neu Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd y BG) os yw'n briodol) yn cynnal gwerthusiad cychwynnol i wirio bod y gŵyn:

- Yn cael ei chyflwyno a'i hystyried yn unol â'r gweithdrefnau cywir
- Yn cael ei chyflwyno o fewn y dyddiadau cau
- Yn y fformat cywir

Os bydd angen symud eich cwyn ymlaen yn unol â'r prosesau ffurfiol, bydd y Pennaeth yn penodi aelod o staff annibynnol priodol o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru i ymchwilio i'ch cwyn. Fel arfer byddant yn aelod o Uwch Dîm Arwain Athrofa Padarn Sant. Os na fydd y Pennaeth ar gael neu os ydynt eisoes wedi ymwneud â'r gŵyn, yna bydd Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, neu ei gynrychiolydd enwebedig, yn penodi aelod o staff i ymchwilio i'r gŵyn. Ar

adegau, efallai y bydd yn briodol penodi person annibynnol addas yn hytrach nag aelod o staff.
Gelwir y person a benodir i ymchwilio i'r gŵyn yn Swyddog Achos. Hysbysir y sawl sy'n gwneud y gŵyn pwy fydd ei Swyddog Achos **o fewn 14 diwrnod** i dderbyn y gŵyn.

Bydd y Swyddog Achos yn penderfynu:

- A fyddai cyfryngu yn briodol
- A oes angen cyfeirio eich cwyn yn ôl i'r cam datrysiad cynnar
- Os nad oes tystiolaeth ddigonol ar gyfer y gŵyn, neu ei bod yn wamal, yn flinderus neu'n faleisus ac na ddylid bwrw ymlaen.

## 9.2 Ymchwilio i'r Gŵyn

### 9.2.1 Y Swyddog Achos

Bydd y Swyddog Achos yn dechrau'r ymchwiliad o fewn **7 niwrnod** i chi gael eich hysbysu o'r penodiad.

Bydd y Swyddog Achos yn ystyried y dystiolaeth rydych wedi'i darparu. Mae'n debygol o gwrdd â chi, ac efallai y bydd yn siarad gydag unigolion eraill a allai helpu i sicrhau eglurder ynghylch y mater. Os yw'r gŵyn yn un sy'n cael ei gwneud erbyn person arall, mae'r ymchwiliad hefyd yn debygol o gynnwys cyfweliad gyda'r person hwnnw.

### 9.2.2 Y weithdrefn ar gyfer cyfarfodydd

P'un a ydych yn gwneud cwyn neu p'un a wnaed cwyn yn eich erbyn chi, mae'r weithdrefn ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r ymchwiliad yr un fath.

Cynhelir cyfarfod wyneb yn wyneb lle bynnag y bo'n bosibl. O ystyried natur wasgaredig Athrofa Padarn Sant, nid yw bob amser yn bosibl trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb o fewn amserlen resymol ac mae'n bosibl y bydd angen cynnal rhai cyfarfodydd achos ar-lein.

Bydd y swyddog achos yn trefnu amser sy'n gyfleus i bawb, a bydd angen i hyn fod o fewn cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer cynnal yr ymchwiliad. Gallwch ddod â rhywun gyda chi i'r cyfarfod gyda'r Swyddog Achos i'ch cefnogi. Ni all y sawl sy'n dod gyda chi fod yn rhywun â chysylltiad uniongyrchol â'r gŵyn neu'n berthynas i chi. Nid yw'r person hwn yn mynychu fel tyst neu i gadarnhau eich tystiolaeth, ond gall eich helpu i fynegi eich hun neu holi cwestiynau ar eich rhan.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, os yw'r gŵyn yn gŵyn yn erbyn person, yna rhoddir crynodeb o'r gŵyn i'r person hwn cyn y cyfarfod. Gwneir pob ymdrech i sicrhau na fydd y cyfarfodydd yn hwy nag awr. Pan na fydd hyn yn bosibl, bydd egwyl o ddeng munud o leiaf ar ddiwedd pob awr.

Bydd rhywun yn cymryd nodiadau yn y cyfarfod.

Anfonir y nodiadau a wneir yn y cyfarfod at y bobl berthnasol i gadarnhau'r ffeithiau. Gallwch hysbysu'r swyddog achos o unrhyw beth yr ydych chi'n ei gredu sy'n anghywir yn y nodiadau. Ni fydd gwybodaeth ychwanegol ar y cam hwn fel arfer yn cael ei derbyn, oni fydd y Swyddog Achos wedi gofyn am y wybodaeth hon.

### 9.2.3 Gwneud Dyfarniad ynghylch y Gŵyn

Bydd y Swyddog Achos yn ystyried yr holl dystiolaeth er mwyn penderfynu ar ganlyniad eich cwyn. Mewn achosion cymhleth, mae'n bosibl y bydd y Swyddog Achos yn ymgynghori ag uwch aelodau o staff perthnasol neu arbenigwyr.

Bydd y Swyddog Achos yn ysgrifennu adroddiad ar y gŵyn gan nodi ei ganfyddiadau, y canlyniad a'i argymhellion. Anfonir yr adroddiad at y sawl sy'n gwneud y gŵyn **o fewn 30 diwrnod** i ddechrau'r ymchwiliad.

Os yw'n gŵyn yn erbyn unigolyn arall, anfonir copi o'r ymateb at y person hwn hefyd fel arfer.

## 10. Canlyniadau

Gallai fod nifer o ganlyniadau i ymchwiliad i gŵyn:

a. Gall y gŵyn gael ei gwrthod.

b. Gellir cadarnhau'r gŵyn yn rhannol, ac yn yr achos hwn bydd y Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) yn cymryd camau priodol. Gallai'r adroddiad wneud argymhellion ar gamau gweithredu priodol i'w hystyried.

c. Gellir cadarnhau'r gŵyn, ac yn yr achos hwn bydd y Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) yn cymryd camau priodol. Gallai'r adroddiad wneud argymhellion ar gamau gweithredu priodol i'w hystyried.

Anfonir yr adroddiad at y Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) a fydd yn nodi'r canlyniad ac yn asesu'r argymhellion a sicrhau bod y camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Pan fydd cwyn yn erbyn unigolyn yn cael ei chadarnhau, gallai hyn gynnwys ysgogi'r broses ddisgyblu.

Bydd y Swyddog Achos yn paratoi dogfen ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r gŵyn er mwyn gwella profiad myfyrwyr. Hyd yn oed pan na fydd cwyn yn cael ei chadarnhau, mae'n bosibl y gellir dysgu o'r profiad.

Os caiff cwyn ei chadarnhau yn erbyn ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth neu Weinidog Trwyddedig Newydd, anfonir y crynodeb at eu tiwtor personol neu arweinydd y rhaglen hefyd, oherwydd bydd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â ffurfiant a datblygiad y person hwnnw. Yn yr un modd, os bydd ymgeisydd neu Weinidog Trwyddedig Newydd yn codi cwyn wamal, flinderus neu faleisus, gallai hynny hefyd ffurfio rhan o'r adroddiad arnynt.

## 11. Y Weithdrefn Adolygu

Os ydych yn credu nad yw'r mater wedi'i ddatrys yn ddigonol, gallwch wneud cais am adolygiad.

Gallwch ofyn am adolygiad ar y seiliau canlynol:

a. Roedd anghysondebau yn y ffordd y dilynwyd y weithdrefn gwyno, sydd o natur sy'n peri amheuaeth resymol a fyddai'r un penderfyniad wedi'i wneud os na fyddai hyn wedi digwydd.

b. Tystiolaeth newydd wedi dod i law nad oeddech, am resymau cymhellol, yn gallu ei darparu yn gynharach yn y broses.

c. Mae'r canlyniad yn afresymol.

Rhaid i chi wneud y cais hwn drwy gysylltu â'r Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) yn ysgrifenedig o fewn **14 diwrnod** yn dilyn yr hysbysiad o'r canlyniad**.**

Os gwrthodir eich cais am adolygiad, byddwch yn derbyn **Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.** Os ydych ar gwrs achrededig addysg uwch, efallai y gallwch apelio i **Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch.**

Bydd y Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) yn ystyried y dystiolaeth ac yn gwneud penderfyniad. Fel arfer ni chynhelir cyfarfodydd pellach gyda chi fel rhan o'r broses hon. Efallai y gwneir un o'r penderfyniadau canlynol:

a. Cadarnhau canlyniad y gŵyn wreiddiol.

b. Gwyrdroi canlyniad y gŵyn wreiddiol yn rhannol.

c. Gwyrdroi canlyniad y gŵyn wreiddiol yn ei gyfanrwydd.

Cyflwynir y penderfyniad **o fewn 28 diwrnod** i'r cais am adolygiad. Bydd y penderfyniad yn derfynol a bydd Athrofa Padarn Sant yn ystyried mai dyna ddiwedd y mater.

Cyflwynir **Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau**. Os ydych ar gwrs achrededig addysg uwch, efallai y gallwch apelio i **Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch.**

Os na fydd yn bosibl ymateb i'r apêl o fewn yr amser hwnnw, rhoddir esboniad am yr oedi, a hysbysir yr achwynydd pryd y gall ddisgwyl ymateb.

## 12. Oedi

Gwneir pob ymdrech i weithredu o fewn yr amserlenni a nodir yn y polisi hwn. Os bydd amgylchiadau eithriadol sy'n golygu nad yw'n bosibl ymateb i'ch cwyn o fewn yr amserlen a nodir yn y polisi hwn, rhoddir esboniad am yr oedi a bydd pob parti perthnasol yn cael ei hysbysu ynghylch pryd y gallent ddisgwyl cael ymateb.

## 13. Apeliadau i Brifysgolion Dilysu

Os ydych ar raglen sydd wedi'i dilysu gan un o'n prifysgolion partner a'ch bod yn anhapus â chanlyniad eich cwyn, efallai y gallwch gyflwyno eich cwyn yn uniongyrchol i'r brifysgol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r dolenni canlynol:

Ar gyfer **Prifysgol Cymru y Drindod Dew Sant** (sy'n dilysu cymhwyster israddedigion a phrentisiaid Athrofa Padarn Sant, gweler:

https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd

Ar gyfer **Prifysgol Durham** (sy'n dilysu cymwysterau ôl-raddedig Athrofa Padarn Sant, gweler:

https://www.dur.ac.uk/departments/academic/common-awards/students/complaints-appeals/

## 14. Apeliadau i Swyddfa'r Dilysydd Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA)

Bydd penderfyniad y Pennaeth (neu Gadeirydd y BG os yw'n gŵyn yn erbyn y Pennaeth) yn cau proses Gwyno Athrofa Padarn Sant.

Mae **Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch** yn cynnal cynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Athrofa Padarn Sant yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anhapus â'r canlyniad, efallai y gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu eich cwyn. Mae rhagor o wybodaeth am wneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a beth y gall ei wneud i unioni sefyllfa os bydd rhywbeth wedi mynd o'i le ar gael yma:

**https://www.oiahe.org.uk/students**

Fel arfer bydd angen i chi fod wedi cwblhau gweithdrefn gwyno Athrofa Padarn Sant cyn i chi gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Athrofa Padarn Sant yn anfon llythyr atoch o'r enw **'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'** pan fyddwch wedi cyrraedd diwedd eich prosesau ac nid oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn ei chadarnhau, bydd Athrofa Padarn Sant yn parhau i gyflwyno Llythyr **Cwblhau Gweithdrefnau** yn awtomatig. Os caiff eich

cwyn ei chadarnhau yn rhannol, gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os byddwch yn dymuno cael un. Gallwch ddarllen mwy am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y dylech ddisgwyl derbyn un yma: **https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters**

Rhaid i fyfyrwyr wneud eu cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol **o fewn 12 mis** i gwblhau gweithdrefn gwyno Athrofa Padarn Sant. Bydd y cyfnod 12 mis fel arfer yn dechrau o **ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau**.

## Atodiad 1. Ffurflen ar gyfer Cwynion Ffurfiol

Cwblhewch bob un o'r cwestiynau isod. Dim ond pan fydd y **ffurflen ar-lein** wedi'i chwblhau'n llawn y bydd modd ymchwilio i'r gŵyn.

| **Cyflwyno Cwyn Ffurfiol** | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Dyddiad** | |
| **Rhaglen** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Dyddiad neu gyfnod amser y mater yr ydych yn dymuno cwyno yn ei gylch** | |
| **Crynodeb byr o'ch cwyn** | |
| | |
| **Rhowch fanylion unrhyw gamau a gymerwyd i ddatrys eich cwyn. Os na chymerwyd unrhyw gamau, esboniwch pam**. | |
| | |
| **Rhestrwch unrhyw dystiolaeth yr ydych yn ei hatodi i gefnogi eich honiad e.e. negeseuon e-bost** | |
| | |
| **Pa ganlyniad ydych chi'n ei eisiau?** | |
| | |
| **Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen hon yn wir, hyd eithaf fy ngwybodaeth, a byddwn yn barod i ateb cwestiynau pellach cysylltiedig pe bai angen.**<br><br>**Llofnodwyd**_____ **Dyddiad**_____ | |

**Atodiad 2. Siart llif y Weithdrefn ar gyfer Cwynion Ffurfiol**